



Cronfa Gymunedol Fferm Wynt
PEN Y CYMOEDD
Wind Farm Community Fund CIC

ADRODDIAD EFFAITH

2016-2018

EIN DWY FLYNEDD GYNTAF

VATTENFALL 

RHAGARWEINIAD

Ym mis Rhagfyr 2016 agorodd Cronfa Gymunedol Fferm Wynt Pen y Cymoedd, gan gynnig ffynhonnell newydd, sylweddol o gyllid ar draws pedwar cwm. Cyn y lansiad, roedd gweithredwyr y Fferm Wynt, Vattenfall, wedi ymgynghori'n eang, gan gasglu syniadau lleol. Bydd y Gronfa yn gyfrifol am £1.8 miliwn y flwyddyn yn rhedeg tan 2043 ac yn buddsoddi yn y blaenoriaethau a nodwyd gan gymunedau lleol.

**Cwmni Buddiant Cymunedol Cronfa
Gymunedol Fferm Wynt Pen y Cymoedd**

4 Adeilad Venture Wales, Ffordd Depot
Aberdâr, Rhondda Cynon Taf, CF44 8DL

01685 878785

enquiries@penycymoedd.cymru

[f](#) @penycymoedd [t](#) @PyCCommunity

O'r cychwyn cyntaf, roedd Cyfarwyddwyr newydd y Gronfa wedi'u hysbrydoli gan y cyfoeth o syniadau a gynhyrchwyd yn lleol, ac rydym yn benderfynol o ddatblygu dull strategol sy'n adeiladu ar asedau a chryfderau gwych ein cymunedau i wneud gwahaniaeth gwirioneddol a pharhaol. Rydym wedi parhau i estyn allan ac wedi bod wrth ein bodd â'r croeso a gawsom a'r diddordeb enfawr a ddangoswyd.

Ymysg cryfderau'r Gronfa mae ein gallu i gefnogi busnesau yn ogystal â mudiadau cymunedol; i gymryd dull hirdymor yn ogystal â diwallu anghenion uniongyrchol; i ysgogi creadigrwydd ac arloesedd ac i gydweithio ag eraill i sicrhau'r effaith fwyaf.

Mae'n ddyddiau cynnar o hyd, a byddwn yn esblygu ymhellach, ond rydym yn gobeithio bod ein dwy flynedd gyntaf – a adlewyrchir yn yr adroddiad hwn – wedi gosod y naws ar gyfer y dyfodol. Yma rydym yn adrodd hanes rhai o'r prosiectau y dyfarnwyd grantiau iddynt a'r bobl sydd wedi gwneud iddynt ddigwydd. Rydym yn gobeithio y byddwch yn mwynhau'r darllen ac y bydd yn cynnig rhywbeth i chi gnoi cil arno.

Hoffwn ddiolch i Vattenfall – ac i bob un ohonoch chi – am eich cymorth, eich egni a'ch creadigrwydd.

Marc Phillips, Cadeirydd

Barbara Anglezarke, Cyfarwyddwr Gweithredol

Chwefror 2019



YNGLŶN Â'R GRONFA GYMUNEDOL

Prosiect Ynni Gwynt Pen y Cymoedd

Wedi'i datblygu a'i rheoli gan y cwmni ynni Ewropeaidd Vattenfall, Pen y Cymoedd ar hyn o bryd yw'r fferm wynt fwyaf ar y tir yng Nghymru a Lloegr – mae ei 76 o dyrbinau wedi bod yn cynhyrchu digon o ynni ar gyfer 188,000 o gartrefi ers Medi 2017. Mae Vattenfall wedi ymwneud â chynhyrchu ynni ers dros 100 mlynedd, a nod cyffredinol y cwmni bellach yw gwneud byw heb danwydd ffosil yn bosibl o fewn un genhedlaeth.

Lleolir y fferm wynt ar dir Llywodraeth Cymru, a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru. O'r buddsoddiad o £400 miliwn i adeiladu'r prosiect, aeth 52% i fusnesau yng Nghymru, gan sicrhau gwaith i fwy na 1,000 o weithwyr. Heddiw, mae Tîm Gweithrediadau a Chynnal a Chadw o 23 wedi'i leoli yn Hwb Pen y Cymoedd ar safle'r fferm wynt. Mae'r Gronfa Gymunedol yn parhau i weithio'n agos gyda staff Vattenfall ac mae'n gwerthfawrogi eu cefnogaeth frwdfrydig yn fawr.

Cronfa Gymunedol Fferm Wynt Pen y Cymoedd

Mae'r Gronfa Gymunedol wedi bod yn rhan annatod o ddatblygu'r fferm wynt o'r dechrau fel rhan o ymrwymiad hirdymor Vattenfall i'r cymunedau lle y lleolir y tyrbinau. Gyda £1.8m y flwyddyn (mynegrifol) ar gyfer yr 20 mlynedd nesaf o leiaf dyma'r gronfa fwyaf o'i math ar hyn o bryd yn y DU. Er y'i sefydlwyd yn wreiddiol gan Vattenfall, mae gan y Gronfa ei Bwrdd Cyfarwyddwyr ei hun ac mae'n annibynnol ar y fferm wynt.

Yn dilyn ymgynghori helaeth gyda'r gymuned a rhanddeiliaid, crynhodd Vattenfall yr holl flaenoriaethau eang a nodwyd mewn prosiectws – mae wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan:

www.penycymoeddcic.cymru

Mae'r prosiectws yn crynhoi'r holl gamau a datblygiadau posibl o dan naw thema allweddol:



Swyddi lleol a'r Economi



Trafnidiaeth a Chysylltiadau



Iechyd a Llesiant



Diogelwch a Thai



Mannau Cymunedol



Yr Amgylchedd



Twristiaeth



Diwylliant



Ysgolion a Hyfforddiant

Ar hyn o bryd, mae dwy ffrwd grant yn cefnogi cyflawni'r blaenoriaethau hyn (manyllion llawn ar ein gwefan) – sydd ar gael i sefydliadau cymunedol a busnesau:


Cronfa grantiau bychain: 11% o gyfanswm y Gronfa ar gael bob blwyddyn – grantiau unwaith ac am byth fel arfer hyd at £5,000 – dau gylch bob blwyddyn.

Cronfa Weledigaeth: 11% o gyfanswm y Gronfa ar gael bob blwyddyn – grantiau dros £5,000.

Er mwyn sicrhau bod cyllid ar gael ar gyfer y dyfodol ac yn cael ei ailgylchu i eraill ei ddefnyddio, rydym yn ymchwilio i'r posibilrwydd o gynnig mathau eraill o gyllid megis benthyciadau a grantiau ad-daladwy.

Mae hyd at 10% o gyfanswm y Gronfa ar gael ar gyfer costau gweithredol.

£1,800,000



CWMNI BUDDIANT CYMUNEDOL CRONFA GYMUNEDOL FFERM WYNT PEN Y CYMOEDD

Rheolir y Gronfa gan Gwmni Buddiant Cymunedol annibynnol sy'n atebol yn lleol, gyda Bwrdd o chwe Chyfarwyddwr anweithredol, sy'n gyfreithiol gyfrifol am yr holl benderfyniadau buddsoddi a chyflawni'r Strategaeth:

Strategaeth a blaenoriaethau

Mae ein Strategaeth yn nodi sut y byddwn yn cefnogi darparu'r syniadau a dyheadau eang a nodwyd yn y Prosbectws. Mae'n helpu i lywio ein penderfyniadau a blaenoriaethu gweithgareddau ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Nid yw'r strategaeth hon yw ddigyfnewid o bell ffordd a chaiff ei diwygio a'i haddasu yn ôl yr angen i adlewyrchu amgylchiadau sy'n newid a'r cynnydd a wneir.

Gweledigaeth: gweledigaeth y gymuned a nodir yn y Prosbectws yw yn 2040 a thu hwnt, bydd ardal Pen y Cymoedd yn lle deinamig, cyffrous a bywiog i fyw a gweithio ynddo.

Ein Cenhadaeth: ein rôl yw gwneud popeth yn ein gallu i droi gweledigaeth y gymuned yn realiti – gan ddefnyddio'r adnoddau sydd gennym, i gynnal a gwella asedau economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol yr ardal fuddiant.

Blaenoriaethau a Gwerthoedd – rydym yn anelu at:

1. Nodi a chodi ymwybyddiaeth o gyfleoedd a photensial – pobl a syniadau – gan annog trafodaeth a dysgu a rennir.
2. Helpu i godi dyheadau – meithrin datblygu agwedd gadarnhaol.
3. Helpu i adeiladu capasiti – datblygu syniadau a gweithredu.
4. Buddsoddi mewn cyfleoedd economaidd, cadw asedau yn yr ardal leol – pobl, arian, seilwaith.
5. Cynnal a datblygu seilwaith cymunedol – pethau y mae angen iddynt fod ar waith i allu byw yn yr ardal.
6. Gwella cysylltedd a chysylltu cymunedau.
7. Datblygu'r cwmni buddiant cymunedol fel buddsoddwr hirdymor yn yr ardal.



Marc Phillips
(Cadeirydd)



Mair Gwynant
(Trysorydd)



**Professor
Donna Mead**



Bob Chapman



Cawsant oll eu penodi yn dilyn proses recriwtio agored ym Mehefin 2016 a gallant wasanaethu am uchafswm o ddau dymor o dair blynedd. Ein bwriad fydd i benodi aelodau newydd yn raddol dros yr ychydig flynyddoedd nesaf i sicrhau parhad wrth i'r Cyfarwyddwyr gwreiddiol sefyll i lawr. Bydd y broses recriwtio unwaith eto yn dryloyw ac yn agored ac yn cael ei hyrwyddo'n dda, a bydd yn sicrhau bod aelodaeth y Bwrdd yn adlewyrchu cyfansoddiad ein cymunedau.



Dave Henderson



Glenn Bowen

Ymgwymerir â rheoli'r Gronfa Gymunedol o ddydd i ddydd gan ein Tîm Staff o ddwy:



Barbara Anglezarke
(Cyfarwyddwr
Gweithredol)



Kate Breeze
(Gweinyddydd y
Rhaglen)

ARDAL FUDDIANT Y GRONFA

Mae ardal fuddiant y Gronfa yn cwmpasu rhannau uchaf Cymoedd Nedd, Afan, Rhondda a Chynon – dangosir y prif gymunedau ar y map.





Er y gall ymgeiswyr fod wedi'u lleoli y tu allan i'r ardal hon – mae angen iddynt esbonio'n glir sut bydd eu cynigion o fudd i bobl sy'n byw yng nghymunedau'r Gronfa.

CARREG FILLTIR

Mae llawer wedi digwydd dros y ddwy flynedd ddiwethaf!

Hydref 2016



Penodi Gweinyddydd y Rhaglen, agor y swyddfa

Rhagfyr 2016

Lansio Sioe Deithiol a'r Gronfa Grantiau Bychain yn agor

YN AGORED

Mehfin 2017

gwneud dyfarniadau cyntaf y Gronfa Weledigaeth



Medi 2017

cyhoeddi rownd 2 y dyfarniadau Cronfa Grantiau Bychain

Medi 2016

Penodi'r Cyfarwyddwr Gweithredol

Mawrth 2017

Cyhoeddi rownd 1 y dyfarniadau Cronfa Grantiau Bychain

Ebrill 2017

y Gronfa Weledigaeth yn agor

Mehfin 2016

Penodi'r Bwrdd



Medi 2017

Dros
£1,000,000 +
wedi'i ymrwmo



Mawrth 2018

Cyhoeddi Rownd 3 y dyfarniadau Cronfa Grantiau Bychain

Tachwedd 2017

penodi Wavehill fel Ymgynghorwyr Gwerthuso a Monitro



Mawrth 2018

Dros
£2,000,000 +
wedi'i ymrwymo



Mai 2018

Penodi Tîm Cefnogi Cymunedau - partneriaeth ag Interlink a Chyngor Gwasanaeth Gwirfoddol CNPT



Gorffennaf 2018

Dros
£3,000,000 +
wedi'i ymrwymo



Medi 2018

Cyhoeddi rownd 4 y dyfarniadau Cronfa Grantiau Bychain

Tachwedd 2018

Dros
£4,000,000 +
wedi'i ymrwymo



FFYRDD O WEITHIO

Mae'n debyg nad yw ysgrifennu cais am gyllid ar frig rhestr neb o bethau hwyliog i'w gwneud, ond rydym yn gwneud ein gorau i wneud y broses mor esmwyth ag y gallwn – ac rydym bob amser yn croesawu ac yn gweithredu ar adborth i wneud gwelliannau.

Cyn cyflwyno unrhyw gynnis, rydym yn annog trafodaeth gyda'n tîm staff cyfeillgar (a bach!) – Kate a Barbara. Mae hyn yn ein helpu i ddeall beth sydd wedi'i gynllunio, ateb cwestiynau am broses, ymdrin â materion cymhwysedd ac ati. Gall darpar ymgeiswyr archebu slotiau mewn sesiynau cyngor anffurfiol a gynhelir ledled ardal fuddiant y Gronfa – maent yn cael eu hysbysebu ar ein gwefan, drwy'r cyfryngau cymdeithasol a phosteri mewn lleoliadau cymunedol.


Ein nod yw gweithio gydag ymgeiswyr mewn ffordd gefnogol a chymwynasgar – rydym yn gwybod y gall y broses fod yn frawychus i rai pobl. Nid yw staff yn gwneud penderfyniadau ar ddyfarniadau – Aelodau'r Bwrdd sy'n gwneud hynny – er mwyn i Kate a Barbara allu cynnig help llaw.

Rydym yn defnyddio'r egwyddorion canlynol yn ein prosesau asesu: **Parch at ymgeiswyr, Bod yn agored, Bod yn gymesur, Tegwch.**

Mae dyfarniad grant i CGG Castell-nedd Port Talbot ac Interlink wedi cyflwyno adnodd ychwanegol – mae gan y Gronfa bellach Dîm Cefnogi Cymunedau sy'n darparu cymorth datblygu cymunedol. Mae staff medrus yn sicrhau bod ymgeiswyr i'r Gronfa Gymunedol a derbynwyr grantiau yn cael arweiniad ymarferol ychwanegol ac yn cael eu cyfeirio at wasanaethau arbenigol pellach pan fydd angen hynny. Bydd y tîm hefyd yn helpu i ddod â grwpiau at ei gilydd ar draws ffiniau sirol a chymunedol, gan nodi a hyrwyddo cyfleoedd i weithio gyda'i gilydd.



Mae mynd allan a chyfarfod pobl yn bwysig iawn i ni. Yn ystod ein dwy flynedd gyntaf, fe wnaethom:



CYNNAL

42

SESIWN GYNGOR MEWN **28** O LEOLIADAU CYMUNEDOL
GWAHANOL AR DRAWS ARDAL Y GRONFA - WEITHIAU GYDA
CHYLLIDWYR ERAILL MEGIS Y LOTERI FAWR I WNEUD
SESIYNAU YN FWY DEFNYDDIOL AR GYFER YMGEISWYR POSIBL

CYFARFOD Â


365

O GRWPIAU A
BUSNESAU UNIGOL

MYNYCHU

4

FFAIR GYLLIDO



SICRHAU MWY NA

300

O DDILYNWYR
AR TWITTER

SICRHAU MWY NA

340

O DDILYNWYR AR FACEBOOK - AR
GYFARTALEDD MAE EIN POSTIO YN DENU **96**
'HOFFI' AC YN CAEL EI RANNU **12** GWAITH

Mae Gwefan y Gronfa www.penycymoeddcic.cymru
hefyd yn llawn gwybodaeth: gallwch ganfod manylion
prosiectau a ariannwyd, y rhaglenni grant eu hunain,
gwybodaeth am aelodau'r Bwrdd a staff - ynghyd â
nodiadau cyngor ac arweiniad ar gyfer ymgeiswyr.

DOSRANNU GRANTIAU

Gellir canfod rhestr lawn o bob grant a ddyfarnwyd ar ein gwefan.

Prif Ffigyrau 1: Grantiau 2016 - 2018

TALER DYFARNWYD 178 GRANT

£4,018,017

PEDAIR MILIWN, DEUNAW MIL

AC UNDEGSAITH O BUNNAU

Daethpwyd â **£3.7 miliwn**
pellach i mewn fel arian cyfatebol.



Y grant lleiaf: £280.00 – Cymdeithas Ddinesig y Rhondda

Y grant mwyaf: £491,869 – Prosiect Treftadaeth Gymunedol St. Elvan

31 o Ddyfarniadau i Fusnesau – **£312,914**

147 o Ddyfarniadau i Grwpiau Cymunedol – **£3,705,103**

Cronfa Weledigaeth

- **45** o geisiadau llawn wedi'u derbyn
- **63** o Ddatganiadau o Ddiddordeb cychwynnol wedi'u derbyn
- Cyfanswm y grantiau y gofynnwyd amdanynt: **£20,345,491**
- **33** o grantiau Cronfa Weledigaeth wedi'u dyfarnu, sef cyfanswm o **£3,554,839**
- Daethpwyd â **£4,150,049** pellach i mewn fel arian cyfatebol



Cronfa Grantiau Bychain


- **344** o geisiadau wedi'u derbyn, yn gofyn am gyfanswm o **£1,173,206**
- **145** o grantiau wedi'u dyfarnu (22 Busnes a 123 Cymunedol), sef cyfanswm o **£463,178**
- Daethpwyd â **£1,668,803** pellach i mewn fel arian cyfatebol – felly cafodd cyfanswm o **£2,131,981** ei fuddsoddi mewn prosiectau a gweithgareddau



Dosbarthiad Daearyddol

Dros ei hoes o 25 mlynedd, nod y Gronfa yw sicrhau bod pob ardal yn elwa yn gyfartal. Yn y ddwy flynedd gyntaf, mae ein trefi mwy o faint wedi denu grantiau mwy ar gyfer prosiectau a oedd wedi'u datblygu'n dda ac yn barod i fynd. Yn ystod y blynyddoedd i ddod, edrychwn ymlaen at weithio ymhellach gyda chymunedau ledled ardal y Gronfa ar amrywiaeth o brosiectau cyffrous.

Rhwng 2016 – 2018:



Mae grant pellach i CGG Castell-nedd Port Talbot ac Interlink (**£434,965 dros bum mlynedd**) yn galluogi gwaith y Tîm Cefnogi Cymunedau ar draws ardal gyfan y Gronfa.

Swyddi

Swyddi a grëwyd (swyddi newydd sbon)



Swyddi a ddiogelwyd = 9
(cadw pobl mewn gwaith a datblygu cyfleoedd).

Hyfforddiant Datblygu Sgiliau = 15
(mae'r rhain yn cynnwys cymwysterau hyfforddi chwaraeon a hyfforddiant Arweinwyr Dug Caeredin).

Busnesau Newydd a Datblygu Busnesau

Rydym wedi cefnogi saith busnes newydd ac wedi helpu 14 busnes i dyfu – o wneuthurwyr siocled, gwneuthurwyr sebon organig a gwerthwyr blodau – i gaffis, glanhawyr ffenestri, busnesau dodrefn a meysydd gweryslla.



ASTUDIAETHAU ACHOS

Dyma rai yn unig o'r 178 o brosiectau yr ydym wedi gallu eu helpu hyd yn hyn – mae wedi bod yn heriol dros ben i ddewis pa rai i'w cynnwys yma! Gallwch ddarllen am fentrau cyffrous eraill ar ein gwefan.

Menywod mewn busnes

Dyfarwyd llawer o'n grantiau busnes i fenywod mentrus – sy'n sefydlu neu'n datblygu eu mentrau. Mae'r rhain yn cynnwys:

Afan Vale Chocolates, Cymer Grant Busnes Cronfa Grantiau Bychain £3,250



Wedi'i leoli yng Nghwm Afan uchaf, mae'r busnes yn cynhyrchu siocledi moethus a wnaed â llaw, gan brynu cynhwysion yn lleol pan fo'n bosibl, ac yn anelu at "sefyll allan fel cwmni sy'n cynhyrchu'r

siocledi mwyaf blasus, gan gynnig cynnyrch unigryw sy'n ddymunol i unrhyw un sydd am gael siocledi o'r ansawdd uchaf ar gyfer pob achlysur". Ariannodd y grant offer hanfodol er mwyn galluogi dyblu'r capasiti cynhyrchu. "Mae gallu prynu'r rhain wedi arwain at lai o straen, gallu cynhyrchu mwy a llai o wastraff o ran stoc – mae ein capasiti cynhyrchu wedi mwy na dyblu ac mae'n sylfaen gwsmeriaid yn ehangu."

Anita, Afan Vale Chocolates

Flowers by Kirsty Grant Busnes Cronfa Grantiau Bychain £3,500



Mae'r busnes gwerthu blodau hwn ar y brif stryd yn Nhreforci yn cynnig gweithdai crefft yn y siop ei hun ac allan yn y gymuned, yn ogystal â gwerthu blodau ar gyfer pob achlysur. I gefnogi datblygiad

y busnes a'r gweithdai crefft cymunedol, talodd y grant am gost gwefan, ymgyrch farchnata, gliniadur ac aelod o staff rhan-amser am chwe mis. Yn ogystal â swydd rhan amser, crëwyd swydd llawn amser arall erbyn hyn.

"Rydym yn angerddol am addysgu a chynnwys pobl mewn gweithgareddau crefft – dysgu, creu, cael hwyl a magu hyder. Mae galw uchel yn lleol am hyn gan ysgol a chanolfannau cymunedol. Mae'r grant wedi ein helpu ni i fynd â'r gweithdai allan ymhellach a chysylltu â llawer o grwpiau."

Kirsty, Flowers by Kirsty

The Tired Mama Collection

Cronfa Weledigaeth £23,065



Brand dillad arloesol sy'n tyfu (gyda chynnyrch Cymraeg a Saesneg) wedi'i anelu at famau a thadau blinedig... a'u babanod! Wedi'i sefydlu flwyddyn yn ôl a'i redeg tan yn awr o gartref yr ymgeisydd yn Aberdulais (gyda chymorth teulu a ffrindiau), roedd y busnes wedi tyfu'n rhy fawr i'w le

yn yr atig. Mae'r grant hwn wedi cefnogi ehangu sylweddol, gan alluogi prynu gweithdy pwrpasol a recriwtio dau aelod o staff rhan-amser lleol ar oriau hyblyg, wedi'u strwythuro o gwmpas gofal plant. Y cynllun yw hybu gwerthiant mewn siopau newydd megis siopau bach, sioeau babanod a

digwyddiadau ac i ddal stoc, yn hytrach na gwneud ar gais - gan leihau amseroedd cyflawni archebion a chynyddu gwerthiant uniongyrchol i gwsmeriaid newydd. Mae gan Tired Mama bolisi moesegol cryf, gan weithio gyda chyflenwyr cyfrifol yn unig.

Grwpiau cymunedol

Under the Sky - Tyfu a Dysgu Canolfan Hyfforddi Glyn-nedd (GTC)

Grant Cronfa Gweledigaeth: £194,258 dros 4 blynedd



Mae GTC wedi'i leoli yn y gymuned a'i arwain ganddi - gan gynnig amrywiaeth eang o weithgareddau a gwasanaethau a gweithredu fel canolbwynt ar gyfer y gymuned leol. Mae'r prosiect hwn yn datblygu mudiad bwyd cymunedol - gan sefydlu partneriaeth fwyd/tyfu newydd ar gyfer Cwm Nedd uchaf. Mae'r partneriaid yn cynnwys yr holl ysgolion a meithrinfeydd lleol, cartrefi gofal preswyl, grwpiau rhandir a llawer

mwy. Mae gweithgareddau yn canolbwyntio ar ddatblygu gwybodaeth, sgiliau a hyder, sicrhau tir ar gyfer tyfu bwyd yn lleol a helpu i feithrin dealltwriaeth o fanteision iechyd bwyd da yn gyffredinol - gan uno'r gymuned mewn ymarfer corff a gweithgarwch cymdeithasol. Gobeithir y bydd mentrau gwyrdd newydd yn cael eu datblygu wrth i'r gwaith fynd rhagddo. Mae'r prosiect yn cynnig cyfleoedd gwirfoddoli niferus ac

amrywiol, ynghyd â chyfle i weithio tuag at gymwysterau achrededig.

Crëwyd dwy swydd swyddog prosiect, ynghyd â Phrentis Garddwriaethol sy'n astudio yng Ngholeg CNPT. Mae Hyfforddai Garddwriaethol, gyda chefnogaeth Asiantaeth Elite, hefyd wedi ymuno â'r tîm.

Clwb Bocsio Cwm-gwrach

**Grant Cronfa Grantiau Bychain:
£3,226**



Wedi'i sefydlu ym mis Tachwedd 2017, mae'r Clwb hwn sy'n gysylltiedig â Sefydliad Bocsio Amatur Cymru yn gampfa bocsio gymunedol ac yn ganolbwynt cymdeithasol. Mae'n hyrwyddo'r gamp ei hun, yn ogystal ag iechyd a llesiant cyffredinol yr holl bobl sy'n byw yng Nghwm-gwrach a'r ardal gyfagos. Mae croeso i bobl alw heibio am banded o de – nid oes angen gwisgo menig! Mae'r lleoliad ar gael i'w logi gan grwpiau cymunedol eraill hefyd. Mae'r gweithgareddau yn fforddiadwy ac yn hygyrch, gan annog ffitrwydd, disgyblaeth,

cyfeillgarwch, chwarae teg a pharch at bawb. Mae'r pedwar hyfforddwr cymwysedig gwirfoddol yn darparu sesiynau hyfforddiant ar bedair noson yr wythnos ar gyfer 80 o aelodau, rhwng wyth oed a lefel hŷn, gan gynnwys 22 o ferched a menywod. Mewn llai na blwyddyn, mae'r Clwb yn falch o gael ei Bencampwr Nofis Cymreig cyntaf. Cefnogodd y grant Cronfa Grantiau Bychain y clwb i brynu offer cychwynnol hanfodol – cylch, menig, gardiau pen ac ati. Mae gan y Clwb lefel nodedig o egni ac ymrwymiad. Maent wedi adeiladu rhwydwaith cryf ag ysgolion lleol, yr heddlu, y Cyngor Cymuned a grwpiau o bob math eisoes – ac mae busnesau lleol yn eu cefnogi, wrth ddarparu cymorth mewn da ar gyfer atgyweirio'r adeilad. "Rydym yn gweithio i ddatblygu Clwb Bocsio y bydd y gymuned yn falch i fod yn rhan ohono."

Leighton Collins

The Play Yard, Ynyswen

**Grant Cronfa Weledigaeth:
£357,000 dros 4 blynedd**



Wedi'i leoli yn yr hen ffatri Burberry, y Play Yard yw menter gymdeithasol newydd cyffrous Valleys Kids. Mae'r cyfleuster yn cynnwys lle chwarae dan do mawr i blant, chwaraeon dan do ar ddau gae pump-bob-ochr, stiwdio ffitrwydd a chaffi, oll dan yr un to â digon o le parcio. Mae'r prosiect yn mynd o nerth i nerth ac mae wedi rhagori ar rai o'i dargedau gwreiddiol – e.e. rhagwelwyd y byddai chwech a hanner o swyddi yn cael eu creu ac mae 16 yn bodoli yn barod. Mae'r amrywiaeth o weithgareddau yn ehangu o hyd

ac mae bellach yn cynnwys: pecynnau parti; dosbarthiadau gweithgarwch corfforol ar gyfer plant bach a phlant, megis BeatBall a Parkour; gwersylloedd pêl-droed yn ystod y gwyliau mewn partneriaeth â Chlwb Pêl-droed Dinas Caerdydd; dosbarthiadau addysgol cyn-ysgol wythnosol; Grŵp Chwarae Aros a Chwarae Cariad Babi; dosbarthiadau ffitrwydd i oedolion megis Funky Pump a Hyfforddiant Cylchol; Pêl-droed cerdded i'r rhai dros 50; 'Breast Foot Forward', grŵp cymorth Canser y Fron misol gyda 30 o aelodau; profiad gwaith a chyfleoedd i wirfoddoli gyda hyfforddiant achrededig megis Cyfathrebu mewn Awtistiaeth, Cymorth Cyntaf, Bwyd Doeth yn ystod Beichiogrwydd a Diogelwch a Hylendid Bwyd.

Ehangu Pêl-rwyd y Rhondda yn Nhreforci Grantiau'r Gronfa Grantiau Bychain: Rownd 1 – £4,953 a Rownd 3 – £4,940



Wedi'i sefydlu yn 2016, mae Pêl-rwyd y Rhondda yn gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Pêl-rwyd Cymru a Chwaraeon Cymru yn Rhondda Cynon Taf i sicrhau bod yr un mynediad i bêl-rwyd â'r hyn sydd ar gael ar gyfer chwaraeon poblogaidd eraill. Cyn 2016, ychydig iawn o ddarpariaeth oedd ar gael ar gyfer pêl-rwyd (neu unrhyw gamp arall yn gyfartal i'r ddarpariaeth ar gyfer bechgyn). Cyn gynted ag yr agorwyd y drysau, cofrestrodd dros 200 o bobl ifanc i chwarae pêl rwyd yn rheolaidd ac erbyn hyn mae mwy na 1,500 o gyfranogwyr wythnosol ar draws Rhondda Cynon Taf

(merched yn bennaf, er y croesewir bechgyn). Pêl-rwyd y Rhondda erbyn hyn yw'r gweithgarwch cyfranogiad chwaraeon benywaidd mwyaf yng Nghymru – gan gyfrannu at lefelau uwch hollbwysig o weithgarwch corfforol a llesiant. Mae grantiau'r Gronfa Grantiau Bychain wedi cefnogi ehangu'r ddarpariaeth yn Nhreforci ar gyfer y rhai o dan 5, 7 a 15:

- Mae 160 o bobl ifanc yn Nhreforci bellach yn chwarae yn rheolaidd.
- Mae 3 hyfforddwr gwirfoddol wedi ennill cymwysterau achrededig.
- Mae strwythur cystadlaethau yn rhan uchaf y Rhondda Fawr yn fuddiol i ysgolion cynradd lleol.

Mae gan Pêl-rwyd y Rhondda rai cefnogwyr lefel uchel: "Mae'n ysbrydoli merched ifanc i gael breuddwydion mawr, i osod nodau ac archwilio eu potensial eu hunain. Rwy'n credu bod gan RN bethau mawr i ddod yn ei ddyfodol ac rwy'n falch i ddangos fy nghefnogaeth ar gyfer achos mor wych."

Tanni Grey-Thompson

Amgueddfa Cwm Cynon Grant Cronfa Weledigaeth: £388,178 dros 4 blynedd



Sefydlwyd Ymddiriedolaeth Amgueddfa Cwm Cynon yn 2015 o ganlyniad i ymgyrch dan arweiniad y gymuned i achub amgueddfa'r Cwm rhag cau. Er bod ei drysau ar gau am gyfnod, mae'r Amgueddfa wedi ailagor yn llwyddiannus, gyda'r cyfrifoldeb am ei rheoli wedi'i drosglwyddo'n llawn erbyn hyn i'r Ymddiriedolaeth gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Mae grant y Gronfa Weledigaeth wedi bod yn rhan hanfodol o hyn, gan gefnogi tair swydd allweddol – Rheolwr, Swyddog Cymunedau a Chydlynnydd yr Amgueddfa – ynghyd ag arwyddion allanol ac ailddatblygu

gofodau gweithgarwch a chyfarfod mewnol yn yr adeilad hanesyddol. Mae'r ystafelloedd hyn yn fwyfwy poblogaidd ac yn cynhyrchu incwm hanfodol. Mae'r caffi yn darparu gwasanaeth croesawgar i ymwelwyr â'r Amgueddfa ac eto, mae'n denu incwm rheolaidd ar gyfer yr Ymddiriedolaeth. Mae nifer yr ymwelwyr wedi codi o 60 yr wythnos yng nghanol 2017 i fwy na 400 yr wythnos bellach. Mae gwerthiant y siop hefyd yn cynyddu.

Yn ogystal â dysgu am hanes a diwylliant cyfoethog Cwm Cynon, mae ymwelwyr hefyd bellach yn cymryd rhan mewn rhaglen o ddigwyddiadau megis Steampunk Experium a Marchnadoedd Bwyd, ynghyd â ffeiriau crefft. Mae adnoddau i ymgysylltu ag ysgolion uwchradd a darparwyr addysg bellach ac uwch yn yr ardal hefyd yn cael eu datblygu.

Prosiect Treftadaeth Gymunedol
St. Elvan Grant Cronfa Weledigaeth:
£491,869 dros 4 blynedd



Mae Eglwys St. Elvan yn dirnod eiconig yng nghanol Aberdâr ac mae wedi cychwyn ar brosiect uchelgeisiol i weddnewid ei hun ar gyfer y 21ain ganrif a thu hwnt. Rhoddodd y grant Cronfa

Weledigaeth arian cyfatebol hanfodol ar gyfer y Prosiect Treftadaeth Gymunedol – gan ddatgloi grant Loteri Treftadaeth o £786,700, yn ogystal â chyllid gan Cadw ac amrywiaeth eraill o Ymddiriedolaethau a Sefydliadau eraill. Bydd y prosiect yn cynnwys ailwampio'r eglwys yn llwyr a gosod gofod treftadaeth gymunedol i greu cyfleuster groesawgar i bawb sy'n byw yng Nghwm Cynon ac yn ymweld â'r ardal. Bydd cyfleusterau newydd yn cynnwys caffi a Chanolfan Gwybodaeth i Dwristiaid, ardal

cell a chreffft, ardal arddangos, ystafelloedd ychwanegol ar lefelau mesanîn at ddefnydd y gymuned a darparu cyfleusterau hanes rhyngweithiol. Bydd y Gronfa Weledigaeth yn cefnogi creu swydd Swyddog Treftadaeth Gymunedol newydd, recriwtio a hyfforddi tîm o wirfoddolwyr a darparu lleoliadau gwaith ac addysgol. Mae gan iaith a diwylliant Cymru hanes hir a phwerus yn y Cwm a bydd y prosiect yn amlygu a dathlu'r dreftadaeth gyfoethog hon. Bydd gwaith ar yr adeilad yn dechrau

yng ngwanwyn 2019 a'r gobaith yw y bydd y cyfleuster newydd yn llwyr agored yng nghanol 2020.

“Mae'r dyfarniad Cronfa Weledigaeth yn newyddion gwych ar gyfer ein plwyf a'r gymuned. Ein cenhadaeth drwy'r prosiect hwn yw rhoi hyder i'r gymuned ehangach drwy ail-drefnu Eglwys St. Elvan a chreu canolfan fywiog a fydd yn gwasanaethu ac yn cefnogi anghenion pobl yn ddiwylliannol ac mewn termau ymarferol.”

Y Tad Robert Davies, Ficer Aberdâr

Busnesau

Ystafell de Cedars yng
Nghanolfan Ymwelwyr Parc Afan
Grant Cronfa Bychain o £5,000.00



Yn 2016, dechreuodd Cedars reoli'r Ganolfan Ymwelwyr ym Mharc Ymwelwyr Fforest Afan – sy'n fyd-enwog am ei lwybrau cerdded a beicio mynydd. Mae'r caffi yn gwneud y Ganolfan yn gyrchfan deniadol i'r holl ymwelwyr – boed yn feicwyr ai peidio – ac mae'n darparu cyflogaeth ar gyfer pobl leol.

Cefnogodd y grant osod ardal gownter newydd, gan alluogi gosod mwy o fyrddau a seddi a dodrefnu ystafell gyfarfod a digwyddiadau sydd ar gael i'w llogi. “Rydym yn gweithio i ailddatblygu'r ganolfan ymwelwyr i fanteisio i'r eithaf ar y lle sydd ar gael a hefyd yn ailddatblygu'r gegin a'r ardal wasanaeth er

mwyn caniatáu cyflwyno bwydlen estynedig. Rydym bellach wedi cyflogi dau aelod arall o staff rhan-amser o'r ardal leol ac yn gobeithio recriwtio mwy wrth i'n gweithgareddau barhau i ehangu. Rydym wedi gweld cynnydd yn nifer yr ymwelwyr yn y caffi ac wedi cael llawer o adborth cadarnhaol gan ymwelwyr.”

Jill Williams, Ystafell de Cedars

Maes Gwersylla Willow Springs, Cwm Afan

**Grant Cronfa Weledigaeth:
£66,143.25 dros 2 flynedd**



Maes gweryslla eco-gyfeillgar, traddodiadol â 10 llain a chwt bugail ar gyfer glampio – ynghyd â lamas, moch, hwyaid, gwyddau, ci a chath! Gydag ynni solar, system treulydd bio ar gyfer gwastraff a dŵr ffynnon naturiol ar y safle, nid oes unrhyw bwyntiau trydan na generaduron; ac anogir ymwelwyr i gymdeithasu o amgylch y pyllau tân. Gwnaeth y grant gefnogi cyflogi staff rheoli'r safle a datblygu cyfleusterau – oll mewn ymateb i adborth a gafwyd gan wersyllwyr. Bydd ymwelwyr y dyfodol â Willow Springs yn elwa o

ystafell golchi a sychu dillad eco-gyfeillgar, llochesi maes symudol gyda sgriniau gwybed, byrddau a meinciau, derbynfa wedi'i huwchraddio gyda gwybodaeth i dwristiaid a chynnyrch lleol ar werth, a dau Gwt Gwersylla newydd (croesewir cŵn!). Cododd nifer yr arosiadau o 631 yn 2017 i 1,090 yn 2018 ac mae'r maes gweryslla nawr yn cyflogi un aelod o staff amser llawn, dau rhan-amser a thri aelod o staff dros dro sy'n dod i mewn pan fydd angen. Aiff y wobwr ar gyfer yr ymwelwyr mwyaf mentrus i'r cwpwl o Azerbaijan, a deithiodd ar eu beiciau a thrafnidiaeth gyhoeddus i gyrraedd Willow Springs. "Mae'r maes gweryslla wedi bod yn ddi-baid dros haf 2018, ac mae'r Cytiau wedi bod yn hynod lwyddiannus – cymaint felly, rydym wedi newid y manylebau ar ein cwt bugail i redeg mewn ffordd debyg i'r cytiau."

Marc Souter, Perchennog y Maes Gwersylla

Hot Jam

**Grant Cronfa Weledigaeth:
£23,392 dros 2 flynedd**



Dros y ddwy flynedd nesaf, bydd 4,000 o bobl ifanc 3-14 oed mewn 30 o ysgolion ar draws ardal fuddiant y Gronfa yn gallu cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithdai cerddoriaeth ac ysgrifennu caneuon – yn Gymraeg ac yn Saesneg. Dywedodd y cerddor proffesiynol a chrëwr Hot Jam Andy Mulligan, "Byddwn yn mynd â band 4 darn (lleisydd, gitâr, gitâr fas, allweddellau a drymiau) i mewn i ysgolion i ddarparu cyngherddau a gweithdai cyffrous ar draws amrywiaeth eang o genres cerddoriaeth – jazz, gwerin, pop a

roc. Bydd disgyblion yn gallu cymryd rhan trwy ganu, chwarae offerynnau taro a symud a bydd rhai yn cael y cyfle i chwarae ein hofferynnau. Bydd pawb yn dysgu yr hyn sydd ynghlwm wrth ysgrifennu cân a chreu cerddoriaeth yn fyrfyfyr."

Gyda darpariaeth cerddoriaeth mewn ysgolion yn lleihau, bydd y rhaglen hon yn rhoi i bobl ifanc y cyfle i ddarganfod doniau nad oedden nhw'n gwybod bod ganddynt, ac ysbrydoli eraill i gymryd rhan mewn rhagor o weithgareddau cerddoriaeth – gan obeithio hybu aelodaeth corau a bandiau yn y blynyddoedd i ddod. Mae'r prosiect yn cynnwys datblygu sgiliau, magu hyder a chodi ymwybyddiaeth ar gyfer pobl ifanc. Mae caneuon Cymraeg a thraddodiadau cerddorol yn rhan o'r gymysgedd cerddorol a chyflogir artistiaid llawrydd lleol i ddarparu'r sesiynau gweithdy.

MONITRO A GWERTHUSO

Rydym yn rheoli'r Gronfa Gymunedol ar ran cymunedau lleol a rhoddir llawer o ymddiriedaeth ynom ni i wneud hynny cystal ag y gallwn.

I wneud yn siŵr ein bod yn gwneud gwaith da, ac yn gwella ein gwasanaeth yn gyson, rydym wedi penodi ymgynghorwyr annibynnol, Wavehill, i fonitro a gwerthuso ein gwaith dros y pum mlynedd nesaf. Byddant yn edrych yn fanwl ar:

- effaith a chanlyniadau buddsoddiadau'r Gronfa Gymunedol;
- cyflwyno'r Weledigaeth Gymunedol a nodir ym Mhrosbectws y Gronfa; ac
- arfer gweithio ac effeithiolrwydd y CBC ei hun wrth gefnogi'r rhain.

Os ydych wedi ymgeisio am grant Cronfa Gymunedol, yn llwyddiannus neu'n aflwyddiannus, byddwch yn clywed gan Wavehill! Croesawn eich adborth gonest yn fawr iawn a byddwn yn ymateb i bob darn ohono. Bydd adroddiadau gwerthuso blynyddol a'r camau a gymerwyd o ganlyniad i'r argymhellion yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan.

Diolch i'n cefnogwyr a'n partneriaid

Diolch o galon i:

- bawb yn Vattenfall – hebddynt hwy ni fyddai hyn yn bosibl! Diolch yn arbennig i Rahel Jones ac Emily Faull;
- pobl a chymunedau ardal y Gronfa – am ein croesawu mor gynnes a chyflwyno prosiectau mor gyffrous;
- Swyddogion ac Aelodau CBS Rhondda Cynon Taf a CBS Castell-nedd Port Talbot – am eu holl gymorth a chefnogaeth;
- Cynghorwyr Cymuned a Thref – am eu cefnogaeth am ledu'r gair am y Gronfa;
- Interlink a CGC Castell-nedd Port Talbot – am eu harbenigedd a'u gwybodaeth leol, gan weithio gyda ni mewn modd mor gadarnhaol a chefnogi ymgeiswyr i'r Gronfa.